# Cynnwys


**Cynnwys** **1**

**Adran 1 - Rhagarweiniol** **5**

Cyflwyniad 5

**Adran 2 – Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2024** **6**

**Rhan 1 – Cyflog – Cyffredinol** **7**

Dyfarniad cyflog mis Medi 2024 7

1. Hawl i gyflog a lwfansau 7
2. Polisi cyflog a gweithdrefnau cwyno 7
3. Amseriad penderfyniadau a hysbysiadau am gyflog 8

**Rhan 2 – Cyflog y Grŵp Arweinyddiaeth** **10**

4. Cyflwyniad 10
5. Pennu grŵp pennaeth yr ysgol 12
6. Cyfansymiau unedau a grwpiau pennaeth - ysgolion arferol 13
7. Cyfansymiau unedau a grwpiau pennaeth - ysgolion arbennig 14
8. Cyfansymiau unedau a grwpiau pennaeth - achosion arbennig 16

Newidiadau disgwyliedig yn nifer y disgyblion cofrestredig a sefydliadau addysgu 16

Ysgolion newydd 17

9. Pennu ystodau cyflog arweinyddiaeth 17
10. Penderfynu ar daliadau dros dro i benaethiaid 18
11. Datblygiad cyflog aelodau'r grŵp arweinyddiaeth 18

**Rhan 3 – Graddfeydd cyflog athrawon eraill o 1 Medi 2024** **20**

12. Cyflwyniad 20
13. Y brif raddfa gyflog o 1 Medi 2024 21
14. Y raddfa gyflog uwch o 1 Medi 2024 22
15. Cais i gael cyflog ar y raddfa gyflog uwch 23
16. Yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol o 1 Medi 2024 23
17. Y raddfa gyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso o 1 Medi 2024 24
18. Athro heb gymhwyso sy'n dod yn athro cymwysedig 25
19. Datblygiad cyflog 25

**Rhan 4 – Lwfansau a thaliadau eraill i athrawon dosbarth** **27**

20. Taliadau cyfrifoldeb addysgu a dysgu (CAD) 27
21. Lwfansau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 28
22. Lwfans sy'n daladwy i athrawon heb gymhwyso 29
23. Lwfans dros dro 30
24. Taliadau perfformiad i athrawon ar secondiad 31

25. Dyletswyddau preswyl 31
26. Taliadau ychwanegol 31
27. Cymhellion a buddiannau recriwtio a chadw 31
28. Trefniadau aberthu cyflog 32
**Rhan 5 –Diogelu cyffredinol 34**
29. Amgylchiadau cyffredinol lle mae diogelu yn gymwys 34
30. Hawl i gael swm a ddiogelir 35
31. Hysbysiad o ddiogelu 36
32. Y cyfnod diogelu 36
33. Cyfrifo dyddiadau perthnasol 38
34. Atal y swm a ddiogelir a'i leihau'n rhannol 38
35. Dyletswyddau ychwanegol 38
36. Amrywiol 39
37. Diogelu cyffredinol - athrawon sydd wedi dechrau swydd ar neu cyn 31 Rhagfyr 2005 39
**Rhan 6 – Atodol 43**
38. Athrawon digyswllt 43
39. Athrawon rhan amser - dehongli 43
40. Pennu tâl athrawon rhan amser 44
41. Athrawon a gyflogir ar fyr rybudd 44
**Rhan 7 – Fframwaith Cytundebol i Athrawon 45**
42. Cyflwyniad 45
43. Penaethiaid - prif ofynion 45
44. Dirprwyo 45
45. Cyfrifoldebau proffesiynol 46
Trefniadaeth, strategaeth a datblygiad ysgol gyfan 46
Addysgu 46
Iechyd, diogelwch a disgyblaeth 46
Rheoli staff ac adnoddau 46
Datblygiad proffesiynol 47
Cyfathrebu 47
Gweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill 47
46. Hawliau a roddwyd 47
Amser penodedig i benaethiaid 47
Egwyl ddyddiol 47
Athrawon – cyfrifoldebau proffesiynol 48
47. Dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol 48
48. Athrawon ar yr ystod cyflog ymarferwyr arweiniol 48

Aelodau rhan amser o'r Grŵp Arweinyddiaeth 67
Symud i'r raddfa gyflog uwch (paragraff 15) 67
Athrawon a delir ar yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol (paragraff 16) 68
Creu swydd sy'n talu cyflog uwch nag uchafswm yr ystod cyflog uwch 68
Ymarferwyr arweiniol rhan amser 68
Pennu ystod cyflog unigol o fewn yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol 68
Athrawon digyswllt (paragraff 38) 69
Tâl athrawon rhan amser (paragraffau 39-40) 69
Athrawon sy'n gweithio mewn mwy nag un ysgol neu mewn ysgol ag amserlenni wythnos addysgu amrywiol 71
Athrawon digyswllt 71
Lwfansau a thaliadau eraill 71
Taliadau CAD (paragraff 20) 71
Lwfans ADY (paragraff 21) 73
Egwyddorion cyffredinol 73
Asesu gwerthoedd lwfans priodol 74
Taliadau ychwanegol (paragraff 26) 74
Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) 74
Gweithgareddau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) 74
Darparu gwasanaethau 75
Gweithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol 78
Cymhellion a buddiannau ar gyfer recriwtio a chadw staff (paragraff 27) 78
Trefniadau aberthu cyflog (paragraff 28) 79
Diogelu (paragraffau 29-37) 79
Athrawon sy'n cael swm a ddiogelir 79
Oriau gwaith (paragraff 50) 80
Athrawon rhan amser 80
Grŵp arweinyddiaeth/athrawon ar yr ystod cyflog ymarferwyr arweiniol 81
Ffynonellau gwybodaeth bellach 82
Adnoddau defnyddiol a sefydliadau allanol 82
Deddfwriaeth berthnasol a chyngor adrannol 82
Adnoddau eraill 82

# Y GRŴP ARWEINYDDIAETH

| | 2023 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| 1 | 48,012 | 50,653 |
| 2 | 49,213 | 51,920 |
| 3 | 50,441 | 53,216 |
| 4 | 51,697 | 54,541 |
| 5 | 52,985 | 55,900 |
| 6 | 54,316 | 57,304 |
| 7 | 55,776 | 58,844 |
| 8 | 57,064 | 60,203 |
| 9 | 58,488 | 61,705 |
| 10 | 59,990 | 63,290 |
| 11 | 61,547 | 64,933 |
| 12 | 62,966 | 66,430 |
| 13 | 64,540 | 68,090 |
| 14 | 66,148 | 69,787 |
| 15 | 67,794 | 71,523 |
| 16 | 69,598 | 73,426 |
| 17 | 71,195 | 75,111 |
| 18* | 72,263 | 76,238 |
| 18 | 72,985 | 77,000 |
| 19 | 74,796 | 78,910 |
| 20 | 76,649 | 80,865 |
| 21* | 77,769 | 82,047 |
| 21 | 78,547 | 82,868 |
| 22 | 80,497 | 84,925 |
| 23 | 82,490 | 87,027 |
| 24* | 83,699 | 88,303 |
| 24 | 84,536 | 89,186 |
| 25 | 86,636 | 91,401 |
| 26 | 88,780 | 93,663 |
| 27* | 90,079 | 95,034 |
| 27 | 90,980 | 95,984 |
| 28 | 93,236 | 98,364 |
| 29 | 95,545 | 100,800 |
| 30 | 97,923 | 103,309 |
| 31* | 99,347 | 104,812 |
| 31 | 100,343 | 105,862 |
| 32 | 102,836 | 108,492 |
| 33 | 105,390 | 111,187 |
| 34 | 107,996 | 113,936 |

a. Dylai pwyntiau cyflog sydd eisoes yn bodoli gael eu cymhathu i bwynt cyfatebol ar y graddfeydd priodol ar gyfer 2023 ym mharagraff 4. Dylai unrhyw bennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol nad yw eu cyflog presennol yn cyfateb yn uniongyrchol â phwynt o’r fath gael eu cymhathu i’r pwynt uchaf nesaf ar y raddfa.

b. Dylai datblygiad cyflog fod ar sail blynyddol o 1 Medi, gyda rhagdybiaeth o blaid datblygiad oni bai i’r unigolyn gael gwybod bod gweithdrefnau medrusrwydd yn mynd rhagddynt mewn perthynas â’r flwyddyn honno.

c. Gallai’r corff perthnasol ddyfarnu pwynt ychwanegol i unrhyw bennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol yr oedd eu perfformiad yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol yn ardderchog, mewn perthynas â’r amcanion y cytunwyd arnynt yn benodol. Rhaid i’r disgresiwn i ddyfarnu pwynt ychwanegol os yw’r perfformiad wedi bod yn ardderchog gael ei nodi ym mholisi cyflog y corff perthnasol.

d. Dylai penaethiaid, dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol sydd newydd gael eu penodi gael eu rhoi ar bwynt graddfa addas eu hystodau cyflog priodol ar gyfer 2024, fel yr amlinellir ym mholisi cyflog y corff perthnasol.

e. Gellir gwneud penderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad os bydd pennaeth, dirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol yn destun gweithrediadau medrusrwydd.

f. Pan fydd corff perthnasol, yn unol â darpariaethau Dogfen gynharach, wedi pennu ystod cyflog y mae’r uchafswm yn uwch na’r cyflog uchaf sy’n daladwy o dan y Ddogfen hon, rhaid iddo barhau i dalu unrhyw gyflog a bennir drwy gyfeirio at yr ystod cyflog honno tan y cyfryw adeg ag y mae’n ailasesu ystod cyflog ei swyddi arweinyddiaeth o dan ddarpariaethau’r Ddogfen hon.

# Rhan 3 – Graddfeydd cyflog athrawon eraill o 1 Medi 2024

## 12. Cyflwyniad

12.1. Mae pedair raddfa gyflog ar gyfer athrawon eraill:

i. y brif raddfa gyflog ar gyfer athrawon cymwysedig nad oes ganddynt hawl i gael eu talu ar unrhyw raddfa gyflog arall;

ii. y raddfa gyflog uwch;

iii. yr ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol; ac

iv. y raddfa gyflog athrawon heb gymhwyso.

12.2. Rhaid i unrhyw godiad cyflog neu swm a ddiogelir (ar gyfer y cyfnod a ddiogelir) a ddyfernir i athro ar y brif raddfa gyflog, y raddfa gyflog uwch neu'r raddfa gyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso, yn unol â Rhannau 3, 4 a 5 neu unrhyw symudiad rhwng y graddfeydd cyflog hynny fod yn barhaol cyhyd ag y bydd yr athro'n parhau i gael ei gyflogi o fewn yr un ysgol.

12.3 Rhaid i'r corff perthnasol gymhwyso'r egwyddor o gludadwyedd cyflog mewn trefniadau i gwmpasu holl symudiadau athrawon rhwng swyddi addysgu yng Nghymru (sy'n gymwys i swyddi ar y Brif Raddfa Gyflog neu'r Raddfa Gyflog Uwch) yn unol â'r egwyddorion gorfodol isod:

a) Rhaid i'r cludadwyedd cyflog ymwneud â'r sefyllfa y mae athro wedi'i chyrraedd ar y Prif Ystod Cyflog neu'r Ystod Cyflog Uwch, gan gynnwys cyn symud i rôl arwain; nid yw'n ymwneud ag unrhyw lwfansau, na'r sefyllfa a gyrhaeddwyd ar raddfeydd arweinyddiaeth, er y gallai profiad a gafwyd o rolau o'r fath fod yn berthnasol i benderfyniad y cyflogwr newydd ynghylch cyflog.

b) Pan fo cludadwyedd cyflog yn gymwys, rhaid i'r cyflog a gynigir gan y cyflogwr newydd o leiaf gyfateb i'r pwynt cyflog a gyrhaeddwyd eisoes gan yr athro yn ei swydd addysgu bresennol; dylai hefyd gynnwys unrhyw gynyddran y byddai'r athro wedi disgwyl ei gael pe bai wedi aros yn ei swydd addysgu bresennol ar yr adeg pan fo'r newid cyflogaeth yn digwydd.

c) Rhaid cymhwyso cludadwyedd cyflog ar sail "pro rata" pan fydd athro yn symud i/o swydd addysgu ran-amser.

d) Rhaid i gludadwyedd cyflog gwmpasu seibiant mewn gwasanaeth addysgu o ganlyniad i ddiswyddiadau, neu am resymau iechyd a chymdeithasol fel rhesymau mamolaeth/tadolaeth, meddygol neu ofal teuluol. Mewn sefyllfa lle mae'r cyflogwr newydd yn bwriadu cymryd safbwynt gwahanol, rhaid i'r seiliau dros wneud hynny fod yn anwahaniaethol mewn perthynas â chydraddoldeb a

deddfwriaeth berthnasol arall.

e) Rhaid penderfynu mai'r pwynt graddfa gyfatebol at ddibenion cludadwyedd cyflog yw'r un y byddai'r athro wedi'i gyrraedd o dan y graddfeydd cyflog sy'n gymwys yng Nghymru ar adeg ymgymryd â'r swydd newydd, pe bai eu blynyddoedd o wasanaeth blaenorol wedi'u talu gan ddefnyddio'r graddfeydd cyflog cyfoes hynny.

12.4 Yn ôl disgresiwn y corff perthnasol, gellir cymhwyso cludadwyedd cyflog mewn sefyllfaoedd penodol nad ydynt yn dod o dan yr egwyddorion gorfodol a nodir ym mharagraff 12.3. Gall profiad perthnasol gyfrannu'n ddilys at y penderfyniad ynghylch y pwynt graddfa ar gyfer penodiad addysgu yn yr achosion canlynol:

a) Pan fydd athro cymwysedig yn symud i ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru o rôl addysgu mewn sector arall yng Nghymru neu awdurdodaeth arall.

b) Pan fydd athro cymwysedig yn dychwelyd i addysgu yn dilyn cyfnod o gyflogaeth mewn sector perthnasol y tu allan i addysgu.

## 13. Y brif raddfa gyflog o 1 Medi 2024

13.1 Rhaid i athro ar y brif raddfa gyflog gael y cyfryw gyflog sy’n seiliedig ar y raddfa gyflog a amlinellir yn is-baragraff 2 fel y mae’r corff perthnasol yn ei phennu yn unol ag is-baragraff 3 a pharagraff 19.

13.2 Y raddfa gyflog ar gyfer athrawon dosbarth yw:

**Y Brif Raddfa Gyflog 2024 – Cyflog Blynyddol**

| | **2023** | **2024** |
|---|---:|---:|
| | **£** | **£** |
| **M2 (llei)** | 30,742 | 32,433 |
| **M3** | 33,212 | 35,039 |
| **M4** | 35,771 | 37,739 |
| **M5** | 38,587 | 40,710 |
| **M6 (uch)** | 42,466 | 44,802 |

13.3 Rhaid i’r corff perthnasol bennu’r pwynt, sy’n bwynt isaf neu’n uwch na’r pwynt isaf ar y raddfa gyflog yn is-baragraff 2, y bydd pob athro dosbarth unigol yn cael ei osod yn unol â pharagraff 19.

**Ystod Cyflog Ymarferwyr Arweiniol 2024 – Cyflog Blynyddol**

| | 2023 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **Lleiafswm** | 48,248 | 50,902 |
| **Uchafswm** | 73,347 | 77,382 |

## 17. Y raddfa gyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso o 1 Medi 2024

17.1. Rhaid i athro heb gymhwyso gael y cyfryw gyflog sy'n seiliedig ar y raddfa gyflog a amlinellir yn is-baragraff 3 fel y mae'r corff perthnasol yn ei phennu yn unol ag is-baragraff 2 a pharagraffau 18 a 19 isod.

17.2 Rhaid i'r corff perthnasol bennu'r pwynt, sy'n bwynt isaf neu'n uwch na'r pwynt isaf ar y raddfa gyflog a amlinellir yn is-baragraff 3, y bydd pob athro heb gymhwyso yn cael ei osod yn unol â pharagraff 19.

17.3 Mae'r raddfa gyflog athrawon heb gymhwyso fel a ganlyn:

**Graddfa Gyflog Athrawon Heb Gymhwyso 2024 – Cyflog Blynyddol**

| | 2023 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **1** | 20,674 | 21,812 |
| **2** | 23,078 | 24,348 |
| **3** | 25,482 | 26,884 |
| **4** | 27,885 | 29,419 |
| **5** | 30,292 | 31,959 |
| **6** | 32,696 | 34,495 |

d. Rhaid i'r corff perthnasol ddyfarnu un pwynt i athro ar bwyntiau graddfa 1 i 6 o ddatblygiad Graddfa Gyflog Athrawon Heb Gymhwyso ar ôl iddo gwblhau blwyddyn o gyflogaeth yn graddfeydd y flwyddyn ysgol flaenorol, oni bai i'r athro gael gwybod bod gweithdrefnau medrusrwydd yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

e. Dylai Datblygiad Cyflog ar y brif raddfa gyflog bum pwynt a amlinellir ym mharagraff 13, ac ar y raddfa gyflog athrawon heb gymhwyso ym mharagraff 17, fod ar sail blynyddol o 1 Medi, ac o blaid datblygiad oni bai i unigolyn gael gwybod bod gweithdrefnau medrusrwydd yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r flwyddyn honno'.

f. Dylai Datblygiad Cyflog ar y raddfa uwch yn y mwyafrif o achosion fod ar sail pob dwy flynedd yn unol â gofynion paragraff 14 oni bai bod gweithdrefnau medrusrwydd yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw.

g. Gallai'r corff perthnasol ddyfarnu pwynt ychwanegol i unrhyw athro ar y brif raddfa yr oedd ei berfformiad yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol yn ardderchog, mewn perthynas ag addysgu yn yr ystafell ddosbarth yn benodol. Rhaid i'r disgresiwn i ddyfarnu pwynt ychwanegol i athrawon y mae eu perfformiad wedi bod yn ardderchog gael ei amlinellu ym mholisi cyflog y corff perthnasol.

h. Dylai athrawon sydd newydd eu penodi ac athrawon sydd heb gymhwyso gael eu rhoi ar bwynt graddfa addas o'u hystodau cyflog priodol ar gyfer 2024, fel yr amlinellir ym mholisi cyflog y corff perthnasol.

i. Gellir gwneud penderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad os bydd athro yn destun gweithdrefnau medrusrwydd.

19.3. Rhaid i'r corff perthnasol nodi'n glir ym mholisi cyflog yr ysgol sut y pennir datblygiad cyflog, yn unol â pharagraff 19.2.

